Y Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani
Cwrt y Deml
13a Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9HA

GRWPIAU YSGOL YN DOD I DDIGWYDDIADAU

Cyfrifoldeb eu hysgol a'r staff sy'n dod gyda nhw, yn gyfan gwbl, yw unrhyw blant sy'n dod i unrhyw ddigwyddiadau a drefnir gan y Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw ymorol bod:

- Digon o staff i'r nifer o blant.
- Staff hebryngol wedi'u gwirio'n briodol a bod ganddynt wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn eu lle.
- Staff hebryngol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran goruchwylio'r plant drwy gydol eu hamser y tu allan i'r ysgol.
- Darpariaeth / sgiliau cymorth cyntaf priodol o fewn y staff hebryngol (lle bo'n briodol).

Pan ddônt i'r digwyddiad a drefnir gan y Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani, mae staff hebryngol yr ysgol yn derbyn bod:

- Yr oedolion hebryngol (y nhw) yn gyfrifol yn gyfan gwbl am ddiogelwch ac ymddygiad plant yn eu gofal drwy gydol yr ymweliad / ydigwyddiad.

Gofyn iddyn nhw (yr oedolion hebryngol) aros gyda'u grŵp o blant drwy gydol yr ymweliad / y digwyddiad.

- Gofyn iddyn nhw (yr oedolion hebryngol) beidio â gadael adeilad / oedfan yr ymweliad / y digwyddiad o gwbl yn ystod yr ymweliad / y digwyddiad.
- Rhaid iddyn nhw (yr oedolion hebryngol) ymorol am ymarweddiad ac ymddygiad eu grŵp o blant drwy gydol y digwyddiad / yr ymweliad.
- Rhaid iddyn nhw (yr oedolion hebryngol) ymorol eu bod yn gwybod am leoliad a darpariaeth cymorth cyntaf pan gyrhaeddan nhw'r oedfan.

Pan ddônt i'r digwyddiad a drefnir gan y Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani, mae staff hebryngol yr ysgol yn derbyn bod 'ymarweddiad ac ymddygiad priodol' i blant yn golygu:

- Bod plant yn cerdded o gwmpas yr oedfan gan bwyll. Na ddylid gadael i blant redeg o gwmpas.
- Bod plant yn dawel ac yn peidio â gwneud gormod o sŵn. Bod rhaid i blant barchu anghenion yr oedfan a pheidio â sgrechian, gweiddi, gwthio'i gilydd, etc.
- Bod plant yn gwrtais tuag at ddefnyddwyr neu ymwelwyr eraill â'r oedfan.
- Bod plant yn aros oddi mewn i'w grŵp a chydag oedolion hebryngol oni bai eu bod yn cael cyfarwyddiadau i wneud fel arall. Na chaiff plant grwydro'n ddiatal heb ryw gymaint o oruchwyliaeth a heb fod oedolion yn gwybod ymhle maen nhw.

ENW'R YSGOL: _____

OEDOLYN GORUCHWYLIOL ARWEINIOL:

_____

(yn llofnodi ar ran yr ysgol)

DYDDIAD: _____

(C) Y Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani 2019

RHAID LLENWI'R FFURFLEN YMA A'I HANFON YN EI HÔL ERBYN 4ydd MAI NEU NI FYDDWCH YN GALLU DOD I'R DIGWYDDIAD

The Romani Cultural and Arts Company is registered as a charity (No. 1138150) and a company limited by guarantee (No. 07005660)